O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2083 (Cy.223)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful i Gylchfan Hirwaun, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2011

Gwnaed	*24 Awst 2011*
Yn dod i rym	*5 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Medi 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful i Gylchfan Hirwaun, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:30 o'r gloch ar 5 Medi 2011 ac a ddaw i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A465